Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Callawiau Paratoi i Weithredu’d Ddeddf a’r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol

**Fersiwn 1**

**Cyhoeddwyd Medi 2025**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg |
This document is also available in English
**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

# Cynnwys

Diben y cyllid ... 3
Gweithgarwch cymwys ... 3
Taliadau ... 3
Gofynion monitro ... 3
Manylion cyswllt ... 3

## Diben y cyllid

1. Dylai’r cyllid helpu i feithrin capasiti a chyflwyno gweithredoedd a fydd yn hyrwyddo dulliau effeithiol o ddiwallu anghenion pobl ifanc ag ADY, gan gyfrannu at ddarparu system addysg gwbl gynhwysol, lle cefnogir pob dysgwr i wireddu ei botensial.

2. Daw'r Canllawiau hyn i rym o fis Ebrill 2025 ymlaen.

3. Gall Medr ddiwygio'r trefniadau a nodir yn y Canllawiau hyn, eu diddymu neu ychwanegu atynt unrhyw bryd.

## Gweithgarwch cymwys

4. Datblygu perthnasoedd gydag ysgolion sy’n bwydo i wella profiad pontio dysgwyr.

5. Datblygu systemau o ansawdd mewn perthynas â pharatoi Cynlluniau Datblygu Unigol.

6. Cwmpasu a ddatblygu prosiectau partneriaeth gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i wella’r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DddY) a gynigir yn lleol.

7. Sefydlu systemau cydweithio rhwng y SAB a rhanddeiliaid allweddol eraill i adolygu ac ymateb i'r galw am DDdY

8. Datblygu a sefydlu ffyrdd newydd o weithio

9. Gweithio'n unigol ac mewn partneriaeth â cholegau eraill i wella cysondeb y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) a gynigir ledled Cymru gan ddarparu profiad addysg bellach mwy cynhwysol i bobl ifanc ag ADY

## Taliadau

10. Bydd y cyllid yn cael ei dalu mewn un taliad ym mis Hydref.

## Gofynion monitro

11. Rhaid i sefydliadau sy'n derbyn cyllid Paratoi i Weithredu’d Ddeddf a’r Cod ADY gyflwyno adroddiad diwedd blwyddyn erbyn y dydd Gwener olaf ym mis Tachwedd ar ôl diwedd y flwyddyn academaidd. Bydd Medr yn rhannu templedi adroddiad i'w cwblhau cyn y dyddiad cau.

12. Bydd unrhyw gyllid CDY ni wariwyd a nodir yn yr adroddiad diwedd blwyddyn yn cael ei adhawlio'n llawn gan Medr.

## Manylion cyswllt

13. Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â chynnwys y Canllawiau hyn, cysylltwch â Medr yn BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru.

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government